



Ein cyf/Our ref MA-P-LG-6260-16

Andy Billcliff
Cadeirydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Morol
andy@billbliff.com

Tachwedd 2016

Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni'r Môr

Diolch i chi a holl aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni'r Môr am eich adroddiad a'ch argymhellion. Rydym yn cymeradwyo'r Grŵp am y gwaith hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gall y prosiectau môr a llanw fod yn gatalyddion i sicrhau manteision hirdymor etifeddol i Gymru ac yn wir y DU drwy sicrhau manteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Er mwyn sicrhau etifeddiaeth o'r fath mae angen i'r sectorau cyhoeddus a phreifat weithredu ar y cyd ac yn strategol.

Rwyf felly'n croesawu mai prif thema'r Adroddiad yw ceisio gweithio'n fwy integredig ym maes polisi, arweinyddiaeth a chefnogaeth. Mae'r diffyg eglurder sydd ar hyn o bryd ym maes polisi Ynni y DU yn golygu ei fod yn hollbwysig ein bod yn cydweithio yng Nghymru ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat i sicrhau cymaint o lewyrch â phosib ac i gyflawni ein nod o ddatgarboneiddio.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rhan sydd ganddi i'w chwarae i helpu i ddatblygu sector môr llewyrchus yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu canfyddiadau'r Adroddiad. Ar yr un pryd, rydym am i'r sector ynni'r môr gymeryd cyfrifoldeb am gyflawni nifer o argymhellion yr Adroddiad. Rydym felly yn croesawu ymrwymiad y diwydiant i fynd ymlaen ag Ynni'r Môr Cymru fel canolbwynt i hyrwyddo Cymru, ei hadnoddau a'r diwydiant llewyrchus hwn.

Rydym wedi ystyried yr Adroddiad ar draws y Llywodraeth. Bydd yr Adroddiad yn help i lywio'r broses o ddatblygu polisiâu a'u cyflawni a bydd hefyd yn sylfaen gadarn ar gyfer datblygu gwaith, camau gweithredu a chydweithio yn y dyfodol. Rwy'n atodi copi o ymateb Llywodraeth Cymru i'r prif themâu yn yr adroddiad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Wrth gyflwyno'r adroddiad terfynol, rwyf bellach yn dod â gwaith y Gweithgor Gorchwyl a Gorffen Ynni'r Môr i ben yn ffurfiol ac fe hoffwn ddiolch ichi unwaith eto am eich holl ymdrechion wrth baratoi'r adroddiad hwn.

Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni'r Môr i Ryddhau'r Ynni yn ein Moroedd

ARWEINYDDIAETH

Mae Rhaglen Lywodraethu newydd Llywodraeth Cymru, “*Symud Cymru Ymlaen*”, yn pennu ein rhaglen bum mlynedd i sbarduno gwelliant yn economi Cymru a gwasanaethau cyhoeddus. Fel rhan o'r weledigaeth hon, rydym wedi ymrwymo i gefnogi diwydiant ynni'r môr fydd yn cyfrannu at sicrhau ein huchelgais i gynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy a chreu economi garbon isel i Gymru.

Sylfaen ein gwaith i gefnogi datblygiad ynni'r môr yw'r gwaith yr ydym yn ei wneud ar draws y llywodraeth yn gysylltiedig â chynllunio morol. Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac wedi cyhoeddi drafft cychwynol. Mae'r cynllun yn darparu'r fframwaith ar gyfer defnyddio adnoddau morol yn gynaliadwy ar gyfer yr ardaloedd ar y glannau a'r môr dros yr 20 mlynedd nesaf.

Rydym yn gweithio gyda'r diwydiant ac eraill i sicrhau bod yn cynllun yn cefnogi datblygiad economaidd cynaliadwy yn yr amgylchedd morol (twf glas) gan gynnwys gwneud darpariaeth ar gyfer ynni adnewyddadwy morol. Bydd y cynllun yn anelu at sicrhau penderfyniadau cydsynio cymesur ac yn seiliedig ar risg. Bydd y cynllun hefyd yn nodi meysydd ar gyfer defnydd yn y dyfodol, a bydd yn cynnwys polisiau i gefnogi a diogelu ardaloedd sydd eisoes wedi derbyn cydsyniad neu wedi eu neilltuo ar gyfer datblygu gweithgareddau a allai gyfyngu ar dwf y sector ynni adnewyddadwy morol.

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod cynllunio morol a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cydweddu ac yn dylanwadu ar ei gilydd. Bydd deall a chynllunio ar gyfer y rhyngweithio rhwng y tir a'r môr trwy gynllunio, yn ogystal ag alinio cynlluniau a strategaethau ehangach, yn bwysig i gefnogi twf yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i gefnogi'r diwydiant trwy gymeryd y cyfle i hyrwyddo Cymru mewn digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i hyrwyddo Cymru a helpu i roi hyder y buddsoddwr yn y sector cyffrous hwn. Mae y cyllid a roddwyd gennym i waith neilltuol Marine Energy Pembrokeshire eisoes yn cynorthwyo ei drawsnewidiad i Ynni Morol Cymru. Caiff hwn ei gydnabod gan y diwydiant fel llais y mae angen mawr amdano er mwyn hyrwyddo Cymru.

O fewn ymateb Llywodraeth Cymru i'r galwad gan y DU am dystiolaeth ar Fôr-lynnnoedd Llanw, cadarnhawyd bwysigrwydd sicrhau bod y diwydiant newydd hwn yn derbyn y cyllid priodol a'i fod yn cael y cyfle i ddatblygu i'w botensial llawn. Mae lleihau cyllid y sectorau tonnau a llanw yn golygu bod perygl tanseilio hyder y buddsoddwr a rhoi diwedd ar ddatblygu i'r pwynt ble y mae technolegau yn barod i'w defnyddio a bod modd diffinio llwybr masnachol. Bydd tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gael unwaith y caiff Adolygiad y DU ei gyhoeddi.

SWYDDI A THWF

Astudiaethau rhagolygon llafur a'r galw am sgiliau

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau adroddiad ym mis Gorffennaf eleni yn trafod y bylchau posibl o ran sgiliau yn y sector ynni morol. Roedd y ddau adroddiad yn uniongyrchol gysylltiedig â phrosiect Môr-lynnnoedd Llanw Bae Abertawe, ond maent wedi rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i'r diwydiant ynni morol yng Nghymru, a dealltwriaeth o'r heriau sydd o'n blaenau i ddiwydiant gymeryd mantais o'r dechnoleg newydd hon.

Roedd yr adroddiad adeiladu yn awgrymu bod Cymru mewn sefyllfa dda i fanteisio o'r prosiectau arfaethedig er bod rhywfaint o fylchau yn y sgiliau a nodwyd mewn sawl swydd. Yn benodol, nodwyd bod rheolwyr prosiectau adeiladu, gweithwyr adeiladu arbenigol, gweithredwyr peirianwaith, swyddi sy'n gysylltiedig â logisteg a swyddi morol yn peri pryder. Mae'r adroddiad adeiladu yn cynnwys cyfres o argymhellion gan Tidal Lagoon Power a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'r adroddiad gweithgynhyrchu yn awgrymu y gallai Cymru gymeryd mantais o gyfran sylweddol o'r gwaith gweithgynhyrchu sy'n gysylltiedig â datblygu y lagŵn arfaethedig, ond nid oes rhai elfennau o'r gofynion gweithgynhyrchu yn bodoli yng Nghymru a byddai angen buddsoddi. Mae'n bosib i Gymru ddarparu oddeutu hanner (54%) yr anghenion gweithgynhyrchu a chydodod y prif gydrannau. Fodd bynnag, mae'r astudiaeth yn nodi, gyda buddsoddiad digonol, y gallai'r capasiti mewn theori ehangu i ddarparu 92% o'r gweithgareddau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (<https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/regional-skills-partnerships>) i gynnwys y De-orllewin a'r Canolbarth, y De-ddwyrain, a Gogledd Cymru, yn y drefn honno i helpu Llywodraeth Cymru i lywio'r ddarpariaeth sgiliau i anghenion y farchnad lafur. Swyddogaeth yr RSPau yw helpu i sicrhau bod darpariaeth sgiliau Cymru yn cyd-fynd ag anghenion llafur ymhob rhanbarth er mwyn paratoi diwydiant yn well a sicrhau bod modd iddo fanteisio ar y cyfleoedd. Bydd yr adroddiadau hyn yn helpu'r broses hon.

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar gyfleoedd ar draws y llywodraeth i gysylltu anghenion cyffredin prosiectau ynni. Bydd sgiliau, cymorth ar gyfer y gadwyn gyflenwi, buddsoddiad, ymchwil ac arloesedd yn cael eu cysylltu ar draws prosiectau megis datblygiadau niwclear a lagŵn posibl i sicrhau y manteision gorau i Gymru. Mae'r cyfleoedd hyn ar gyfer busnesau y gadwyn gyflenwi eisoes yn annog cwmnïau i gydweithio i gystadlu ar gyfer contractau. Er enghraifft, mae'r gynghair o gwmnïau y gadwyn gyflenwi a luniwyd yn ddiweddar gan gwmnïau peirianyddol yn Noc Penfro a'r cylch yn annog cystadleurwydd wrth wneud cais am gcontractau mwy, a thrwy hynny yn helpu i gadw manteision economaidd yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru.

CYLLID A CHYLLIDO

Cyllid yr UE

Rydym wedi sicrhau dros gan miliwn Ewro (€100.4 miliwn) o gyllid yr UE i fuddsoddi mewn prosiectau tonnau a ffrwd lanw arloesol sy'n cael eu harwain gan ddatblygwyr i helpu i ddatblygu'r diwydiant. Mae cyllid yr UE drwy WEFO eisoes wedi ei gymeradwyo ar gyfer 3 prosiect technoleg ynni morol ac mae disgwyl mwy yn y misoedd nesaf. Mae'r cwmni o Sweden, Minesto ar Ynys Môn, cwmni Marine Power Systems o Abertawe a Wave-Tricity yn Noc Penfro wedi sicrhau cyllid yr UE i ddatblygu eu technolegau morol yng Nghymru. Mae hwn yn arwydd o bwys i'r diwydiant bod Cymru o ddifrif am ddatblygu y gallu i arwain ym maes ynni morol.

Bydd y ddau Barth Arddangos, tonnau oddi ar Sir Benfro a llanw oddi ar arfordir Ynys Môn, yn dileu rhwystrau sylweddol sy'n cael eu hwynebu gan ddatblygwyr prosiectau ac yn lleihau y gost o'u defnyddio. Maent hefyd yn cynnig cyfle unigryw gan ei bod yn bosibl mai dyma'r unig safleoedd yn y DU sydd ag amrywiol dechnolegau sy'n cael eu defnyddio ochr yn ochr â'i gilydd. Mae'r posibiladau ar gyfer nodi, ac yna ddatrys heriau o ran sicrhau cydbwysedd cyffredinol rhwng y peiriannau ar draws technolegau yn haws o lawer o fod yn agos at ei gilydd. Rydym yn credu y gellir sefydlu canolfan ragoriaeth yn y DU ac y gallwn

ddarparu mewnbwn trwy ein harloesi peirianyddol ac amgylcheddol cadarn a'n gallu ym maes Ymchwil a Datblygu yng Nghymru i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Mae Trysorlys EM wedi cytuno yn ddiweddar i danysgrifennu ymrwymadau Cyllid Ewropeaidd i bob prosiect o fewn rhaglenni sy'n bodoli eisoes sydd wedi eu cymeradwyo cyn y dyddiad y mae'r DU yn gadael yr Uneb Ewropeaidd. Golyga hyn, os bydd unrhyw brosiectau yn parhau yn eu cyfnod cyflenwi wrth i'r DU ymadael â'r UE, pan na fydd Cymru yn gallu manteisio ar Gyllid Ewropeaidd, yna bydd Trysorlys EM yn cyfrannu yn lle bob punt o'r arian hwnnw.

Mae'n rhy gynnar i ddeall pa gyllid fydd ar gael y tu hwnt i'r rhaglenni presennol gan y bydd hyn yn cael ei benderfynu gan y DU, a bydd yn rhan o drafodaethau ledled y DU ar sut y bydd cyllid rhanbarthol yn cael ei gynllunio a'i weithredu yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth Prydain yn tynnu sylw at bwysigrwydd darparu cymorth ariannol priodol i'r diwydiant môr a thonau.

CYDSYNIO A LESIO

Mae datganoli cydsyniadau ynni, fel a argymhellir ym Mil Cymru, yn cynnig posibiliadau i sicrhau bod cyfundrefnau cydsynio a thrwyddedu yn cyd-fynd a byddwn yn datblygu'r gwaith hwn unwaith y daw y Bil yn ddeddf ac y bydd y pwerau yn glir. Yn dilyn hyn, byddwn yn rhoi mwy o ystyriaeth i symleiddio ac alinio'r cyfundrefnau rheoleiddio ac yn annog gweithio ar y cyd ble y gallwn, heb gyfaddawdu ar ofynion y broses neu swyddogaeth llunio penderfyniadau.

Mae'n hollbwysig hefyd bod datblygwyr yn casglu cymaint â phosib o'r dystiolaeth ymlaen llaw (gan gynnwys tystiolaeth amgylcheddol), ac yn gwneud y gwaith trafod a dadansoddi cyn dechrau ar y broses gynllunio ffurfiol.

YMCHWIL A DATBLYGU

Mae gan ddatblygiadau ynni y posibilrwydd o gael effaith ar yr amgylchedd forol ac ar y tir yng Nghymru. Oherwydd hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi adnoddau sylweddol i ddeall yr amgylchedd forol ac adeiladu y sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i wneud penderfyniadau doeth ar ddatblygiadau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi hyn, ac mae ganddynt swyddogaeth gynghori a rheoleiddio ym maes yr amgylchedd ac adnoddau naturiol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddatblygiadau o'r fath gael eu darparu mewn ffordd sy'n cyfrannu at lesiant gwell yng Nghymru, gan sicrhau bod y manteision a ddaw o'n hadnoddau naturiol yn cael eu cadw o fewn Cymru.

Mae Ehangu Sectorau Arfordirol a Morol Cymwysedig mewn Dull Cynaliadwy (SEACAMs) wedi derbyn rhagor o gyllid yn ddiweddar gan yr UE. Bydd bron i £12 miliwn yn cefnogi prosiect SEACAMS 2 Prifysgol Bangor University gwerth £17 miliwn sy'n anelu at gefnogi y gwaith o ehangu sector morol Cymru dros y bedair mlynedd nesaf. Bydd arbenigwyr ym mhrifysgolion Bangor ac Abertawe yn cynnig rhaglenni ymchwil a datblygu arbenigol i helpu busnesau i ddefnyddio cyfleoedd masnachol a chreu cynnyrch a phatentau newydd. Mae'r prosiect yn anelu at greu mentrau newydd yn y sector ac i gyflymu y broses o greu swyddi mewn busnesau sy'n bodoli eisoes.

Mae'r Catapwlt Ynni Adnewyddadwy ar y Môr yn gobeithio ennill cyllid yr UE i greu canolfan ragoriaeth peirianeg ynni morol i oresgyn rai o heriau cyffredin y diwydiant, gan weithio gyda datblygwyr, y gadwyn gyflenwi ac academia. Bydd hyn yn helpu i wella cyflenwad y gadwyn gyflenwi o sgiliau, gan ganolbwyntio ar gydbwysedd peiriannau. Gyda'u canolfan yn Noc Penfro, byddai canolfan ragoriaeth yn cefnogi, gwella a sicrhau dyfodol cadarn ar

gyfer clwstwr Peirianeg Ynni Morol o fewn ac o amgylch Dyfrffordd y Ddau Gleddau. Byddai'n bartner strategol ac integredig ar gyfer yr Ardal Profi Ynni Morol (META), gan sicrhau bod gwybodaeth Catapult am y farchnad a'u harbenigedd peirianyddol yn dylanwadu ar ddatblygiad META a'r hyn y mae'n ei gyflawni.

Gallai canolfan ragoriaeth sydd â rhaglen 5 mlynedd, ac sy'n werth £10 miliwn gyflogi hyd at 20 o bobl dros ei 5 mlynedd cyntaf. Byddai'n helpu i sefydlu Doc Penfro fel prif ganolfan ar gyfer prosiectau Ynni Morol yn nyfroedd Cymru a Môr Iwerddon. Trwy brosiectau arloesi cydweithredol gyda'r gadwyn gyflenwi, bydd yn cynorthwyo gyda gallu gweithgynhyrchu a gosod ac arbenigedd a chapasiti Gweithrediadau a Cynnal a Chadw. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â'r Catapult Ynni Adnewyddadwy ar y Môr, sydd ar hyn o bryd yn ystyried sefydlu is-gwmni fel dull o sicrhau canolfan ragoriaeth, ac mae nifer o brosiectau hefyd yn cael eu hystyried ar gyfer yr is-gwmni hwn.

SEILWAITH

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau gyda'n cysylltiad agos ag OFGEM, y Grid Cenedlaethol a Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu i gael rhagor o wybodaeth am y grid ac i ddatblygu dull strategol o ran gallu'r grid a gwelliannau. Cynhaliodd OFGEM weithdy yn ddiweddar yng Nghymru i fwydo i mewn i'w gwaith ar sefyllfaoedd ar gyfer ynni yn y dyfodol. Fel rhan o'u cymorth ar gyfer datblygu arloesedd, mae OFGEM wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer cystadleuaeth arloesi yng Ngogledd Cymru o dros £13 miliwn, fydd yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau o ran gallu ac i wella'r dull o reoli'r rhwydwaith ar Ynys Môn. Megis dechrau mae'r prosiect, ond cafwyd gwybodaeth o waith ymchwil ei fod yn bosib y byddai manteision o'r gwaith hwn i'r sector ynni morol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydweithio'n agos â sefydliadau megis y Bartneriaeth Ymchwil Ynni (ERP) a'r Catapult Systemau Ynni. Cynhyrchwyd Adroddiad yn ddiweddar gan Catapult ar Bensaernïaeth Systemau Pŵer y Dyfodol: <https://es.catapult.org.uk/news/report-outlines-need-for-transformative-change-to-respond-to-the-challenges-of-the-energy-trilemma/>.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr her i'r sector preifat o ddarparu seilwaith a chysylltiadau y grid i gefnogi datblygiadau y sector morol sydd eto i brofi eu bod yn hyfyw yn fasnachol yn yr hirdymor, a chynhyrchu y refeniw sefydlog sydd ei angen i fod yn sail i gyllid buddsoddi y seilwaith traddodiadol. Er ei fod yn y bôn yn fater i'r sector preifat ac i brosiectau penodol, byddwn yn barod i drafod sut y gallai Llywodraeth Cymru helpu i leihau risg buddsoddiadau o'r fath os y gellir cyfiawnhau bod angen gwneud hynny.

Mae'r gallu sy'n bodoli o fewn y sectorau technolegol a gweithgynhyrchu yng Nghymru yn eang iawn ac mae cystadlaeath fyd-eang amdano, ac rydym yn cytuno bod angen dal ein gafael a manteisio i'r eithaf ar y galluoedd hyn. Er enghraifft, mae Cymru yn gartref i nifer fawr o gwmnïau olew a nwy gyda 25% o gyflenwad ynni y DU yn mynd drwy Borthladd Aberdaugleddau. Mae'r cwmnïau hyn yn awyddus i gydweithio ac i edrych ar gyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r sector ynni morol. Gydag asedau naturiol di-guro Cymru a'r porthladdoedd môr dwfn, mae'n golygu bod ein sector ynni morol yn datblygu'n gyflym ac yn gallu cefnogi prosiectau adnewyddadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Ynni'r Môr Cymru i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr arbenigedd a'r wybodaeth.

Mae prifysgolion Cymru yn gweithio gyda'r sector ynni morol i ddatblygu technolegau newydd i helpu i adeiladu ar y sylfeini i gyflawni yn erbyn yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Un enghraifft ddiweddar yw'r Hwb Ynni Morol sydd wedi ei sefydlu yn Sir Benfro drwy fenter ar y cyd rhwng Marine Energy Pembrokeshire a Phorthladd Aberdaugleddau. Mae'r ganolfan wedi'i lleoli ar garreg drws un o adnoddau ynni'r môr gorau'r byd, ac mae'n safle deinamig ble y gall gwmnïau ynni'r môr ddod ynghyd a rhannu safle, cyfleusterau a gwybodaeth i ryddhau posibiliadau llawn y sector.

MARCHNATA A CHYFATHREBU

Rydym wedi ymrwymo'n llawn i gefnogi'r diwydiant hwn a byddwn yn parhau i fod yn bresennol mewn digwyddiadau proffil uchel i sicrhau bod Cymru yn gwerthu ei hun fel arweinydd byd-eang ar ddefnyddio technoleg forol. Byddwn yn gweithio gyda Ynni Morol Cymru i ddatblygu strategaeth gyfathrebu i ganolbwyntio ar ein hadnoddau mewn digwyddiadau allweddol.